**EITEM AGENDA: 10**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 21 Mawrth 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Briffio'r Aelodau ar y sefyllfa bresennol a'r sefyllfa arfaethedig o ran ymrwymiad y Gwasanaeth i fynychu digwyddiadau ar y môr. |

## 1. <u>CYFLWYNIAD</u>

1.1 Mae'r Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Adrannau 7 i 9, yn nodi fod gan Awdurdod Tân ac Achub gyfrifoldeb statudol i sicrhau ymateb i ddigwyddiadau brys neu ddamweiniau yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys llongau mewn porthladd neu wrth y porthladd.

1.2 Yn yr un Ddeddf mae Adran 20 yn datgan, 'If a Fire and Rescue Authority has power to act, or is required to act, outside the authority's area, the authority may exercise the power, or perform the duty, at sea or under the sea.'

1.3 Ar sail y ddarpariaeth statudol a'r pwerau disgresiynol a nodir yn y Ddeddf, a Deddf 1947 o'i blaen, mae'r Gwasanaeth wedi, ers cryn amser, datgan ei fod ar gael i'r Asiantaeth Arforol a Gwylwyr y Glannau i ymateb i ddigwyddiadau y tu mewn a'r tu hwnt i'w ffiniau statudol, fel bo'n briodol. Rhan annatod o'r datganiad hwn yw'r gofyniad o sicrhau bod personél y Gwasanaeth a gyflogir i gyflawni'r swyddogaeth yma yn cael eu hyfforddi yn unol â'r System Datblygiad Personol Integredig a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, yn ogystal â chael offer a'u hanfon allan yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r Gwasanaeth.

1.4 Lle bo ymateb i ddigwyddiad ar y môr yn cynnwys cludiant awyr neu ar y môr i long mewn trafferthion, dim ond personél hyfforddedig o Orsafoedd Tân Caergybi, Rhosneigr, Llangefni ac Amlwch a ddefnyddir.

1.5 Ymatebir i ddigwyddiadau'n ymwneud â llongau sydd wrth y porthladd mewn rhannau eraill o Ogledd Cymru gan bersonél sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn ymladd tân ar longau, cyn belled ag y bo modd. Ychwanegir at hyn, lle bo angen, gan bersonél o'r gorsafoedd a nodir yn 1.4 uchod.

## 2. <u>CEFNDIR</u>

2.1 Rhyw dair blynedd yn ôl ffurfiwyd tîm prosiect i gynhyrchu polisi cenedlaethol a fyddai'n nodi'r gofynion strategol, tactegol a gweithredol sy'n ofynnol, i alluogi ymateb i argyfwng ymladd tân, achub, cemegol neu amgylcheddol lle byddai'n briodol i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ymyrryd.

## 2. **CEFNDIR** *(parhad)*

2.2 Darparwyd, a pharheir i ddarparu cyllid ar gyfer yr uchod gan yr Adran Trafnidiaeth drwy'r Asiantaeth Arforol a Gwylwyr y Glannau, sy'n goruchwylio'r prosiect.

2.3 Mae'r Amodau a Thelerau ynghylch cymryd rhan yn y strategaeth genedlaethol ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd a disgwylir y bydd y ddogfen derfynol yn barod i'r Prif Swyddog Tân a'r Awdurdod ei hystyried yn ystod y misoedd nesaf.

2.4 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn aelod o grŵp o bymtheg o Wasanaethau Tân ac Achub, sy'n cael ei adnabod fel y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Morwrol (MIRG). Mae'r aelodau wedi'u lleoli'n strategol o amgylch arfordir y Deyrnas Unedig.

2.5 O ganlyniad i'r trefniant hwn bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn darparu ymateb dechreuol i'r ardal o fôr o Ystrad Clud (Strathclyde) i Ganolbarth a Gorllewin Cymru, gyda Gwasanaethau'r ardaloedd hyn yn cynrychioli ein cymdogion agosaf o ran aelodau'r Grŵp. Gan ei bod yn ofynnol i bob Gwasanaeth Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Morwrol gael offer a hyfforddiant o'r un safon, y bwriad yw y bydd Gwasanaethau'n cynorthwyo ei gilydd lle bo angen.

2.6 Pan yw'n cael ei hysbysu am ddigwyddiad ar y môr bydd yr Asiantaeth Arforol a Gwylwyr y Glannau, lle credir y gall neu y bydd angen ymyrraeth Gwasanaeth Tân ac Achub, yn cysylltu ag aelod o'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Morwrol yn unig i ofyn am gymorth.

2.7 Bydd y Gwasanaethau Tân ac Achub hynny sydd â risg arfordirol ond nad ydynt yn aelodau o'r Grŵp yn ddiamheuaeth yn rhoi peth dibyniaeth ar aelodau'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Morwrol i ymateb i ddigwyddiadau ar fwrdd llongau yn eu ffiniau statudol eu hunain. Bydd hyn yn gyfrifoldeb Gwasanaethau Tân ac Achub nad ydynt yn y Grŵp. Bydd unrhyw drefniant o'r fath i roi cymorth yn cael ei gytuno'n ffurfiol o flaen llaw i gydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 Adran 13 – Cynlluniau Atgyfnerthu.

## 3. **ADFER COSTAU**

3.1 Lle bo'r Gwasanaeth yn cael ei anfon allan i ddigwyddiad ar y môr at ddiben gweithredoedd ymladd tân, digwyddiad cemegol, amgylcheddol neu achub, bydd yr Asiantaeth Arforol a Gwylwyr y Glannau yn gweithredu fel asiant ar ran y Gwasanaeth at ddibenion adfer costau. Bydd y polisi hwn yn cael ei ymgorffori yn y Cytundeb Amodau a Thelerau.

3.2 Yn y cyd-destun hwn mae adfer costau yn golygu costau cyflog rhesymol yn ystod y digwyddiad, dychwelyd personél yn ôl i Ogledd Cymru ac adnewyddu neu drwsio unrhyw offer a ddefnyddiwyd.

3.3 Lle bo'r Gwasanaeth yn cael ei anfon allan i ddigwyddiad ar lan y môr yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub arall, ar gais y Gwasanaeth hwnnw, gan ddefnyddio personél a hyfforddwyd yn benodol dan ofynion y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Morwrol, mae'r mater o adfer costau yn un rhwng y Gwasanaethau dan sylw, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

**3. <u>ADFER COSTAU</u>** *(parhad)*

3.4 Serch hynny, bydd yr Aelodau'n ymwybodol na wnaed unrhyw orchymyn gan y Cynulliad eto dan Adran 19 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Gallai hynny godi amheuaeth am allu'r ddau awdurdod tân o Gymru sy'n aelodau'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Morwrol i adfer costau yng nghyswllt digwyddiadau o'r fath.

3.5 Lle bo'r Gwasanaeth yn cael ei anfon allan i ddigwyddiad yn ei ardal statudol ei hun, bydd y polisi presennol ynghylch adfer costau yn berthnasol. Trafodwyd cyfrifoldeb statudol Gogledd Cymru o ran ardal gyda'r Asiantaeth Arforol a Gwylwyr y Glannau a defnyddiwyd hyn i benderfynu beth sydd 'ar y môr' a beth sydd 'ar y lan'.

3.6 Yn fras, mae 'ar y môr' yn ymwneud â'r dŵr y tu hwnt i'r marc dŵr isel cymedr. Diffinnir y marc dŵr isel fel 'y rhan honno o'r traeth y mae'r dyfroedd yn cilio iddi pan fo'r llanw ar ei isaf'.

**4. <u>COSTAU ADNODDAU</u>**

4.1 Mae mecanwaith cyllido'r Asiantaeth Arforol a Gwylwyr y Glannau yn cynnwys costau'r holl hyfforddiant gan Wasanaethau Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Morwrol o ran Codi i Hofrennydd, Gollwng a Hyfforddiant ar gyfer Dŵr Oer. Mae hefyd yn cwmpasu'r costau caffael o ran offer amddiffyn personol i gludo'r personél rhwng y tir a'r llong sydd mewn trafferthion.

4.2 Mae'r holl agweddau costau eraill sy'n gysylltiedig â'n swyddogaeth 'ar y môr' yn parhau i gael eu talu gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Byddai hyn yn angenrheidiol beth bynnag, oherwydd y cyfrifoldeb statudol.

4.3 Ar hyn o bryd mae'r gwariant gan y Gwasanaeth i gynnal galluoedd y personél a chynnal yr offer arbenigol oddeutu £25k y flwyddyn. Bydd bod yn aelod o'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Morwrol yn lleihau'r costau cynnal galluedd gan mai hyn yw prif gyfran gwariant blynyddol y Gwasanaeth.

**5. <u>YSWIRIANT</u>**

5.1 Mae personél y Gwasanaeth sydd wedi'u hyfforddi i ymateb i ddigwyddiadau ar y môr wedi eu hyswirio gan ddarpariaeth yswiriant y Gwasanaeth i un ai 10 x cyflog blynyddol neu uchafswm o £500,000 yr unigolyn. Amod ar hyn yw hawliad uchafswm yn erbyn y polisi o £12 miliwn ar gyfer unrhyw un digwyddiad. O ganlyniad i hyn mae'r Gwasanaeth wedi cyfyngu uchafswm nifer y swyddogion y caniateir iddynt fod ar long mewn trafferthion ar unrhyw un adeg i 24. Darperir yswiriant ychwanegol ar gyfer personél y Gwasanaeth sy'n teithio mewn hofrenyddion yn ystod y swyddogaeth 'ar y môr'. Mae'r yswiriant hwn gwerth cyfanswm o £4 miliwn, sy'n golygu dim mwy na 8 o bersonél y Gwasanaeth yn teithio mewn hofrennydd ar unrhyw un adeg.

5.2 Mae'r yswiriant y cyfeirir ato yma yn cynnwys ymarferion hyfforddiant a digwyddiadau yn ogystal ag ymateb i ddigwyddiadau argyfwng.

**5. YSWIRIANT** *(parhad)*

5.3 Ar hyn o bryd mae Undeb y Brigadau Tân (FBU) yn herio darpariaeth yswiriant personol y Gwasanaethau hynny sy'n darparu ymateb 'ar y môr'. Mae'n galw am yswiriant gwerth £1 miliwn ar gyfer pob un o'i aelodau sy'n rhan o dîm ymateb. Byddai bodloni'r cais hwn yn cynyddu'r premiwm yswiriant a delir gan bob Gwasanaeth yn sylweddol, yn cynnwys un Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**6. ARGYMHELLION**

6.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

6.2 Bod yr Aelodau'n cefnogi, mewn egwyddor, aelodaeth arfaethedig y Gwasanaeth o'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Morwrol, yn amodol ar dderbyn ac ystyried Cytundeb Amodau a Thelerau'r Grŵp ar ôl ei lunio'n derfynol.

6.3 Anfon sylwadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w annog i lunio gorchymyn dan adran 19 o'r Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub.